CYNGOR CYMUNED BODORGAN.

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y Ganolfan, Bodorgan ar Nos Fawrth, 17 Gorffennaf 2018.

1 Presennol:

Cynghorydd Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Cynghorwyr Mr Tim Owen, Mr Alwyn Rowlands, Mr Myfyr Davies, Mr Gareth Evans, Mr Jeff Hughes, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Selwyn Williams & Mr Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorwyr Sirol: Mr Bryan Owen & Mr Peter Rogers.

2 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

3 Datgan Diddordeb.

3.1 Ni ddangoswyd unrhyw diddordeb gan yr aelodau ar unrhyw eitem.

4 Cywiro & Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol – 15 Mai 2018.

4.1 (Cofnod 15.1) – gofynwyd dileu 'ymhen pythefnos' oddiar y cofnod ac mai 'Geraint Lloyd Jones' ac nid 'Geraint Evans' oedd enw cyn Prif Weithredwr Menter Môn.

4.2 Wedi cywiro, fe dderbyniwyd ac arwyddwyd y cofnodion (AH/SW).

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion.

5.1 **Carafan, Malltraeth** – mater o'r Adran Cynllunio anfon llythyr gorfodi i berchennog y Garafan mewn llaw.

5.2 **Carreg Ceiliog Bach** – angen atgoffa Adran Priffyrdd trefnu ymweliad a'r safle er mwyn ceisio argymell unrhyw datrysiad.

Arwyddo.....

5.3 **Cyfarfod Swyddfa Archwiliad Cymru** – angen dilyn i fyny. Y Clerc i gysylltu gyda'r Swyddfa.

5.4 Mandad y Banc – adroddiad fod hyn wedi ei ddatrys.

5.5 Hysbysfyrddau Newydd – dywedodd y Clerc fod angen gosod y DDAU hysbysfwrdd newydd ger Mynwent Trefdaeth a ger Cilfan Bwc, Bethel.

5.6 Lon Gefn Groeslon Hermon i Aberffraw – dywedodd y Cynghorydd Sirol Bryan Owen y bydd yn dilyn i fyny gyda Adran Priffyrdd a Stad Bodorgan.

5.7 Ethol Is-Cadeirydd y Cyngor (2018-2019) – dywedodd y Cynghorydd Alwyn Rowlands ei fod yn hapus o dderbyn y cynnig ac fe etholwyd yn Is-Cadeirydd yn unfrydol.

6 MATERION CYLLID.

6.1 **Taliadau & Derbyniadau Mis Mai & Mis Mehefin 2018** – derbyniwyd ac fe arwyddwyd y rhestr a'r cysoniad yn unfrydol.

6.2 Gofynnwyd fod angen ail-edrych ar y cyfrifoldeb o dorri Fynwent Eglwys Bethel yn dilyn cwynion nad oedd o safon dderbynniol. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd unrhyw argymelliad yn nhwylo Is-Bwyllgor Cyllid y Cyngor ac adrodd yn nol i'r cyfarfod llawn nesaf.

6.3 Dywedodd y Clerc nad oedd Bil Dwr y Fynwent heb ei dalu ac oherwydd bygythiad Dwr Cymru - ei fod wedi trefnu talu yn bersonol dros dro.

6.4 Gofynnwyd i'r Clerc drefnu Archwiliad y Maes Chwarae cyn gynted a phosib.

7 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

7.1 Cais Barn Sgrinio ar gyfer ail-adeiladu llinell uwchben ddaear 33kV ar dir rhwng:
LLEOLIAD: Bryn Du, Bethel, Bodorgan – 10EL1533A/E/SCR:
PENDERFYNIAD: Dim Sylwadau.

Arwyddo.....

7.2 Cais Llawn (Disgrifiad & Cynllun Diwygiedig) Codi Sied Amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid ar dir yn:
LLEOLIAD: Bodragolwyn, Bodorgan – 15C108C.
PENDERFYNIAD: Dim Sylwadau

8 PENDERFYNIADAU YR ADRAN CYNLLUNIO.

8.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu – Ty Moel, Bodorgan – 15C226 - CANIATÂD

8.2 Cais Llawn Addasu & Ehangu – Tan Lan, Bethel, Bodorgan – 15C97E – CANIATÂD.

8.3 Cais ol-weithredol cadw Arwydd heb ei oleuo – Meddygfa Parc Glas, Bethel, Bodorgan – 15C227/AD – CANIATÂD.

9 ADRODDIAD CAU YR YSGOL GYMUNED & DYFODOL Y GANOLFAN

9.1 Fe rhoddodd y Cynghorydd Andrew Hughes adroddiad byr ac eglurhad llawn i'r aelodau ynghylch y sefyllfa a'r ddatblygiad fod yr Ysgol bellach wedi cau oherwydd niferod. Fe bwysleisiodd nad oedd son mewn cyfarfodydd am ei gau yn gynt

9.2 Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Jones ei fod wedi derbyn adroddiad prisio (£97,000) yn amodol ar arolwg strwythurol heb unrhyw ddiffygion pellach ac fod symud ymlaen gyda unrhyw gynllun yn hanfodol. Dywedodd ei fod hefyd yn archwilio ariannu'r cynllun gyda Cronfa Trosglwyddo Asedau sydd yn nhwylo y Cynulliad.

10 SEDD GWAG.

10.1 Roedd y Clerc wedi gwneud y trefniadau arferol gyda Swyddfa Etholaeth y Cyngor Sir ac y bydd adroddiad yn nol yn y cyfarfod nesaf.

11 DYYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 18fed Medi 2018.

11.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:20 o'r gloch.

Arwyddo.....D.T. Jones.....Cadeirydd..18./9./2018....Dyddiad.

CYNGOR CYMUNED BODORGAN COMMUNITY COUNCIL.

Rhestr Taliadau & Derbyniadau y Cyngor.

TALIADAU / PAYMENTS.

Dyddiad	Rhif Siec	Taler	Disgrifiad	Swm
17/7/2018	221	Notice Board Company	Hysbysffwrdd Newydd	£ 729.60
17/7/2018	222	Erw Consulting	Ffi Prisio Gwerth y Ganolfan	£ 480.00
17/7/2018	223	Mon Grass Cutting	Cytundeb Torri Gwair	£1,030.00
17/7/2018	224	Anglesey Computers	Costau Diweddaru y Wefan	£ 55.00
17/7/2018	225	J Alun Foulkes	Costau Archwiliad Mewnol	£ 450.00
13/8/2018	226	Dwr Cymru	Mynwent Trefdraeth	£ 40.22
13/8/2018	227	Zurich Municipal	Yswiriant Blynyddol	£ 428.83
19/9/2018	228	J Alun Foulkes	Cyflog hyd at Medi 2018	£3,750.00
19/9/2018	229	Playsafety Limited	Archwiliad Maes Chwarae	£ 270.00
19/9/2018	230	Mon Grass Cutting	Torri Gwair	£ 600.00

DERBYNIADAU/ RECEIPTS:

18/7/2018	**Claddu Llwch - Diweddar Edith Hughes**	**£210.00**
03/8/2018	**Gosod Carreg Fedd – Diweddar Dr Bryan Newns Austin**	**£175.00**
31/8/2018	**Cyngor Sir Ynys Mon – Priseb 2 – 2018-2019**	**£2,866.67**

CYSONI

Gweddill	**30 Mehefin 2018**	**£19,991.44**
Derbyniadau		**£ 3,251.67 +**
		£23,243.11
Llai Gwariant		**£ 7,833.65 -**
CYFANSWM	**31 Hydref 2018**	**£15,409.46**

BANC

Cyfrif Cyffredol – 31 Hydref 2018 **£15,409.46**

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....22/1/2019.....**Dyddiad.**